

## **Cyngor Cymuned Llanelian (278)**

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Gorffennaf 5, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Helen Hughes, Glenys Jones, Elfyn Hughes, Hefina Williams, John Griffiths, Thomas Jones, Dafydd Griffiths, Gordon Hayes, Carol Whitaker, PCSO Simon Cooper, Cyng Aled M Jones.

**Ymddiheuriadau:** Cyng Wil Hughes, Cyng Richard Jones

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Neb

### **3 Materion yr Heddlu**

Croesawyd Simon Cooper i'r cyfarfod ar ran yr heddlu lleol. Cafwyd wybod ganddo bod yr heddlu lleol yn ymwybodol o broblemau gor yrru yn yr ardal, a bod un unigolyn oedd yn creu cryn pryder wedi cael rhybydd swyddogol.

Deallwyd bod ymchwiliadau yn parhau i'r tan a gynhaliwyd yn fwriadol yn y cae chwarae gan greu peth difrod i'r offer chwarae yno. Fe bwysleisiodd PCSO Cooper bod posib gwneud datganiadau a chodi pryder heb ddatgelu i'r sawl sy'n creu trafferth pwy sydd wedi cysylltu a'r heddlu. Fe nododd hefyd bod gwahanol adrannau o fewn y llu yn cydweithio'n agos iawn ac yn rhannu gwybodaeth a'u gilydd.

Roedd cwynion am geir wedi eu parcio ar ymyl y lon fawr am gyfnodau hir heb eu symud. Deallwyd bod y DVLA erbyn hyn wedi cymryd y cyfrifoldeb o wirio bod treth yn cael ei dalu ar gerbydau a bod modd i pawb sydd ag mynediad i'r rhyngwrwyd wirio unrhyw gerbyd a chydi pryder.

Diolchwyd i PCSO Cooper am ddod i'r cyfarfod ac am y drafodaeth bositif.

### **4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir, cynnig Hefina Williams, eilio Thomas Jones.

### **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **5.1 Llithrfa**

Nid oes problemau hyd yma. Nodwyd bod bin wedi ei osod yn y maes parcio gan y Cyngor Sir erbyn hyn.

#### **5.2 Newid Enwau Tai**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, cafwyd wahoddiad i'r holl aelodau gwrdd ag Alec Pickering a Paul Roberts (Llys Dulas) am frecwast. Cafwyd grynodedb o'r ymweliad hwnw gan Hefina Williams. Deallwyd bod Mr Pickering (perchennog) a Mr Roberts (rheolwr) yn awyddus i gwrdd a'r Cyngor yn reolaidd er mwyn datblygu perthynas a chadw mewn cysylltiad. Gofynnwyd i'r clerc ddrafftio ymateb swyddogol yn diolch am y gwahoddiad a chroesawu cyfarfod blynyddol.

#### **5.3 Toiledau Cyhoeddus**

Mae cost blynyddol o £4.8k am gynnal toiledau Llanelian, a rheini dim ond ar agor am chwe mis dros yr haf! Cytuno gofyn i Mr Dewi Williams (CSYM) ddod i gwrdd a'r aelodau cyn gynted a phosib i ddrafod pa opsiynau sydd ar gael ac os oes unrhyw gymorth i'w gael gan CSYM.

#### **5.4 Cyflwr y Lonydd**

Cafwyd ebost gan Mon Williams yn cadarnhau na fyddai yn rhoi sylw i'r lonydd sydd mewn cyflwr gwael yn ystod y flwyddyn ariannol yma. Cytuno bod angen trafod gyda Dewi Williams ar fryder a gofyn am gyfarfod cyn gynted a phosib.

#### **5.5 Cofeb**

Cafwyd wybod bod Gordon Hayes wedi cysylltu a chwmniau lleol er mwyn cael pris am drin y gofeb ond nad oedd ganddynt ddiddordeb yn y gwaith. Bydd felly angen cysylltu a chwmniau yn bellach i ffwrdd.

## **6** **Cynllunio**

Roedd dau gais i'r trafod:

- Bryn Glas, Llaneilian – dim gwrthwynebiad
- Tyn Chwarel, Mynydd Eilian – dim gwrthwynebiad

## **7** **Materion Ariannol**

### **7.1** **Adroddiad Chwarterol**

Dosbarthiwyd gopiau o'r adroddiad chwarterol i'r rheini oedd yn bresennol ac fe Esboniwyd y prif wahaniaethau yn yr incwm a'r gwariant. Gofynnwyd a fyddai posib i'r incwm o'r llithrfa gael ei ddefnyddio tuag at doiledau, ac i'r Cyngor Sir gyfranu beth oedd yn weddill? Byddai angen trafod hyn gyda Dewi Williams.

### **7.2** **Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

Cyflog £321.92

Costau (Ebrill – Mehefin) £260.72

Gwobr Gwyn Roberts £10.00

## **8** **Cae Chwarae**

Mae rhywun wedi cynnal tan yn fwriadol yn y cae chwarae ac wedi creu peth difrod i'r offer coed. Bydd cost o £750 + taw am ei drwsio ai wneud yn ddiogel. Mae hefyd angen gwaith i un o'r siglenni yn dilyn achos arall o gam ddefnydd o'r offer chwarae. Mae pris wedi ei dderbyn gan GL Jones am fearings newydd (£245), cytuno gofyn i GL Jones osod y bearings hefyd er diogelwch.

Cytuno bod angen gwneud y gwaith cyn gynted a phosib y tro hwn, ond ystyried tynnu'r offer petai rhywbeth tebyg yn digwydd eto. Mae hyn y gost ddi angen nid yn unig i'r Cyngor ond hefyd i'r heddlu a'r frigid dan. Cytuno rhoi datganiad ar facebook ac yn yr Arwydd i ddatgan siom y Cyngor a'r gost i'r gymuned.

Gofynnwyd i Cyng Aled Jones drefnu bod biniau newydd ar gael i'r parc (un du ac un gwyrdd) gan nad oedd y bin presennol yn rowlio bellach.

## **9** **Gohebiaeth**

Dim

## **10** **Unrhyw Fater Arall**

### **10.1** **Gwobr Gwyn Roberts**

Cytuno byddai yn dda petai cynrychiolydd o'r Cyngor yn cael cyflwyno'r wobwr flynyddol. Cytuno cysylltu a'r ysgol i drefnu a thalu'r £10 yn wobwr cyn gynted a phosib cyn diwedd y tymor.

### **10.2** **Llwybr**

Daw i sylw'r Cyngor bod giat fochyn ar y llwybr o Eglwys Eilian hyd Porth yr Ychain mewn cyflwr gwael. Cytuno cysylltu a CSYM i godi ymwybyddiaeth.

### **10.2** **Arwydd yn y Sgwar**

Cytuno bod angen cadw'r arwydd yn y sgwar a'i fod angen ei baentio.

## **11** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredin nesaf Medi 13, 2016. Gobeithir cynnal cyfarfod gyda Mr Dewi Williams cyn hyn i drafod y toiledau a chyflwr y lon.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.10.

CET07/2016